Arddangosfa

Wilf Roberts – John Meirion Morris

Gweledigaethau

Cynhelir arddangosfa unigryw o arddulliau a thestunau cyferbyniol gan ddau o artistiaid mwyaf blaenllaw Cymru yn Oriel Ynys Môn, Llangefni rhwng Medi 11 hyd at Dachwedd 7, 2010.

Bydd yr arddangosfa 'Gweledigaethau' yn cwmpasu gwaith un o artistiaid tirluniau mwyaf blaengar Cymru, Wilf Roberts â gwaith un o gerflunwyr mwyaf adnabyddus y wlad, John Meirion Morris.

Ganwyd Wilf Roberts yn Llanfaelog ar Ynys Môn. Roedd yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Llangefni ble cafodd ei ddylanwadu a'i ysbrydoli gan ei athrawon celf, Harri Hughes Williams, Ernest Zobole a Gwilym Prichard.

Aeth ymlaen i astudio yng Ngholeg Normal Bangor ac yna ymlaen i weithio fel athro celf yn Llundain am 13 mlynedd. Yn ystod y cyfnod yma yr oedd hefyd yn astudio rhan amser yng Ngholeg Celf Croydon.

Dychwelodd i fyw i Mynydd Bodafon ar Ynys Môn yn 1974 ac ers 1996 mae wedi dynodi ei holl amser i baentio.

Mae Mynydd Bodafon, ble mae'n dal i fyw yn llunio'r cefndir a'r dylanwad yn nifer o'i waith ynghyd â harddwch arfordir yr ynys a'i chefn gwlad gyfoethog.

Drwy weithio rhan amlaf mewn olew ac acrylig mewn lliwiau naturiol y ddaear, mae ei baentiadau o adeiladau fferm, hen fythynnod, capeli ac eglwysi a thirlun naturiol yr ynys yn portreadu symlrwydd ei bwnc gyda gwaith gorffenedig pwerus a chryf.

Drwy gydol ei yrfa mae wedi cael nifer o arddangosfeydd unigol a chymysg hynod lwyddiannus mewn orielau yn Llundain a Chymru. Mae ei waith hefyd mewn casgliadau preifat a chyhoeddus yn yr Hague, Paris, Efrog Newydd, Awstralia a'r Deyrnas Unedig.

Ganed John Meirion Morris yn Llanuwchllyn ger Y Bala.

Astudiodd yng Ngholeg Celf Lerpwl gan dderbyn hyfforddiant yn y traddodiad clasurol ble roedd pwyslais ar ‘ddarlunio byw’. Yn ystod ei amser yn Lerpwl cyflawnodd gwrs tystysgrif athro.

Yn ystod y 3 mlynedd ddilynol, cychwynnodd ar ei yrfa fel athro celf yn Llanidloes. Yn 1964 aeth i ddarlithio i Ysgol Gelf yn Lemington Spa ac yna yn 1966 cafodd swydd fel darlithydd ym Mhrifysgol Kumasi yn Ghana.

Yn ystod ei amser yn Ghana bu gweld cerfluniau symbolaidd byw oedd yn mynegi teimladau’r werin bobl yn ddylanwad mawr arno, ac yn ei atgoffa o ddylanwad caneuon cerdd dant a barddoniaeth yng Nghymru.

Dychwelodd i Gymru yn 1968 a chafodd swydd fel darlithydd ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Roedd y cyfnod yma yn adeg pan newidiodd natur ei gerflunio yn syfrdanol ac yn un ble ddechreuodd archwilio'r ysbrydolrwydd oddi fewn i’r bywyd Cymreig.

Yn 1985 daeth yn bennaeth celf yng Ngholeg Normal Bangor cyn ymddeol yn 1990 a dynodi ei holl amser i gerflunio ac ysgrifennu.

“Mae’r arddangosfa hon yn dangos dwy ffordd wahanol o weld ac o feddwl – ar y nail llaw cawn ymgolli ym mhrydferthwch cyfarwydd y lliwiau daearol a phatrymau a welir yn yr adeiladau a’r tirlun o’n cwmpas drwy waith Wilf Roberts ac ar y llall cawn ein hysbrydoli i feddwl a theimlo beth bynnag y mynnwn gan ddelweddau symbolaidd a throsiadol yng ngwaith John Meirion Morris “, meddai Pat West, Prif Swyddog – Amgueddfeydd, Diwylliant ac Archifau, Cyngor Sir Ynys Môn.

Dywedodd Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden, y Cyng Bob Parry OBE ***“ Bydd yr arddangosfa hon yn sicr o fod yn llwyddiant mawr ac un fydd yn ysgogi sawl testun trafod”.***

Noson Agoriadol:
Nos Wener 10 Medi, 2010 am 7.00 yh – Croeso cynnes i bawb

Oriel Ynys Môn ar agor yn ddyddiol 10.30 – 5.00
Mynediad am ddim

Oriel Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TQ

Fôn :01248 724444

www.croesomon.co.uk

Diwedd

Gwybodaeth ychwanegol :
Llinos Jones Parry
Swyddog Gweithgareddau a Marchnata
Oriel Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TQ

Ffôn : 01248 752027 / 01248 724444